# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Gwener, 15 Ionawr 2021

Amser: 09.31 - 12.07

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/11117) yn:

http://senedd.tv/cy/11117

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Nick Ramsay AS<br>Mark Reckless AS |
| Tystion: | Steffan Evans, Sefydliad Bevan<br>Gemma Schwendel, Sefydliad Joseph Rowntree<br>Llŷr ap Gareth, Federation of Small Businesses Cymru<br>Andrew Campbell, Cynghrair Twristiaeth Cymru<br>Ian Price, CBI Wales |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Martin Jennings (Ymchwilydd)<br><br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br><br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br><br>Owain Davies (Ymchwilydd)<br><br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN 1 – Llythyr gan y Gweinidog Addysg: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) – 11 Ionawr 2021

### 2.2 PTN2 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2021 – 7 Ionawr 2021

## 3 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22: Sesiwn dystiolaeth 5

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Steffan Evans, Swyddog Polisi ac Ymchwil, Sefydliad Bevan; a Gemma Schwendel, Uwch Ddadansoddwr, Sefydliad Joseph Rowntree ar Graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

## 4 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22: Sesiwn dystiolaeth 6

4.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Andrew Campbell, Cadeirydd Cynghrair Twristiaeth Cymru; Ian Price, Cyfarwyddwr Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru (CBI Cymru); a Dr Llyr ap Gareth, Uwch Gynghorydd Polisi, Ffederasiwn

Busnesau Bach Cymru (FSB Cymru) ar Graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Ceisiadau o ran Cyllideb Atodol 2020-21 gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

7.1 Trafododd a chymeradwyodd y Pwyllgor yr amrywiadau arfaethedig i gyllidebau 2020-21 ar gyfer Archwilio Cymru, Comisiwn y Senedd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Archwilio Cymru i ofyn am ragor o fanylion am gost ychwanegol gwyliau blynyddol cronedig staff.

## 8 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft.